Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Mark Collins QPM
Prif Gwnstabl – Chief Constable.
Rhif Ffôn/Tel.No. 01267 226308
E-Bost/E-Mail:
carol.price@dyfed-powys.pnn.police.uk

30 Ionawr 2020

Mr. Dafydd Llywelyn,
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu,
Heddlu Dyfed-Powys,
Pencadlys yr Heddlu,
Caerfyrddin. SA31 2PF

Annwyl Gomisiynydd,

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i gydnabod yr adroddiad craffu dwys sydd wedi'i gwblhau gennych chi a'ch adran i ymagwedd yr Heddlu tuag at fonitro Dioddefwyr yn tynnu'n ôl, sydd, fel y gwyddoch, yn un o fy mhrif flaenoriaethau ar gyfer yr heddlu mewn perthynas â gwella bodlonrwydd dioddefwyr a hyder mewn plismona.

Hoffwn eich sicrhau y byddwn ni'n parhau i adeiladu ar ein perfformiad, ac mae'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Roderick wedi penodi'r Uwch-arolygydd Ifan Charles i arwain ar Grŵp Aur yr Heddlu.

Er eich gwybodaeth, bydd y pwyntiau canlynol yn cael eu datblygu:

- Bydd Cynllun Gweithredu'r Heddlu'n cael ei grynhoi ym mis Chwefror 2020. Bydd y cynllun hwn yn tynnu'r pwyntiau a'r argymhellion a godwyd yn yr Adolygiad o Ddioddefwyr yn Tynnu'n Ôl at ei gilydd.

- Bydd hyn yn cael ei oruchwylio gan Grŵp Aur yr Heddlu, a fydd yn ymgynnull ym mis Chwefror 2020.

- Rhoddir diweddariadau misol ar Gynllun Gweithredu'r Heddlu yng nghyfarfodydd y Bwrdd Plismona.

- Rhoddir cyflwyniad ar gynnydd o ran Cynllun Gweithredu'r Heddlu yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ym mis Mai.


Byddaf yn sicrhau bod yr heddlu nawr yn gweithio'n agos â'ch swyddfa er mwyn sicrhau bod yr argymhellion a nodwyd o fewn yr adroddiad yn cael eu gweithredu ar lefel strategol ac ar lefel weithredol, ac yn darparu cynllun gweithredu arfaethedig wrth symud ymlaen.



Mae Heddlu Dyfed-Powys yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n ymateb yn eich dewis iaith ac ni fydd oedi mewn perthynas ag unrhyw ohebiaeth drwy'r Gymraeg.
Dyfed-Powys Police welcomes correspondence in Welsh and in English, and we will ensure that we respond to any correspondence through the language of your choice. Corresponding via the medium of Welsh will not endure any delay.

Os hoffech drafod hyn gyda mi yn y cyfamser, peidiwch ag oedi i gysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir,



Mark Collins,
Prif Gwnstabl.